# Hysbysiad Preifatrwydd - Recriwtio drwy E-Recriwtio

Mae geiriau'r ddogfen hon yn adlewyrchu gofynion y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, a ddaw i rym yn y DU ar 25 Mai 2018.

Fel rhan o'r drefn recriwtio, mae'r Brifysgol yn casglu ac yn prosesu data personol sy'n ymwneud ag ymgeiswyr am swyddi. Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i fod yn dryloyw ynglŷn â'r modd y mae'n casglu a defnyddio'r data ac i gwrdd â'i hymrwymedigaethau diogelu data.

**Pa wybodaeth a gesglir gan y Brifysgol?**

Mae'r Brifysgol yn casglu ystod o wybodaeth amdanoch chi. Gall gynnwys:-

- eich enw, cyfeiriad a manylion cyswllt, yn cynnwys cyfeiriad e-bost a rhif ffôn; manylion am eich cymwysterau, sgiliau, profiad a hanes cyflogaeth;

- gwybodaeth am lefel bresennol eich taliadau, yn cynnwys hawl i fudd-daliadau; a oes gennych anabledd ai peidio y bydd disgwyl i'r Brifysgol wneud addasiadau rhesymol ar ei gyfer yn ystod y drefn recriwtio;

- gwybodaeth am eich hawl i weithio yn y DU; a gwybodaeth yn monitro cyfleoedd cyfartal, yn cynnwys gwybodaeth am eich tarddiad ethnig, cyfeiriadedd rhywiol, iechyd a chrefydd neu gred.

Mae'r Brifysgol yn casglu'r wybodaeth hon mewn amryw ffyrdd. Er enghraifft, efallai bydd y data ar ffurflenni cais, CVs neu grynodebau, wedi'u casglu o'ch pasbort neu ddogfennau hawl i weithio derbyniol eraill, neu wedi'u casglu drwy gyfweliadau neu ffurfiau asesu eraill.

Bydd y Brifysgol hefyd yn casglu data personol amdanoch gan drydydd partïon, megis geirdâu gan gyn-gyflogwyr, gwybodaeth gan ddarparwyr gwirio cefndir cyflogaeth a gwybodaeth drwy wiriadau cofnodion troseddol gan, er enghraifft, y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Dim ond ar ôl cynnig swydd i chi y bydd y Brifysgol fel arfer yn holi am wybodaeth gan drydydd partïon. Fe'ch cynghorir ymlaen llaw y byddwn yn holi am eich geirdâu beth bynnag a ddigwydd.

Bydd data yn cael ei storio mewn ystod o wahanol fannau, er enghraifft ar y cofnod o'ch cais a system E-Recriwtio AD.

**Pam fod y Brifysgol yn prosesu data personol?**

Mae'n rhaid i'r Brifysgol brosesu data i symud eich cais yn ei flaen cyn ymrwymo i gontract gyda chi. Mae'n rhaid iddi hefyd brosesu eich data er mwyn ymrwymo i gontract gyda chi.

Mewn ambell achos, mae'n rhaid i'r Brifysgol brosesu data er mwyn sicrhau ei bod yn cydymffurfio â'i hymrwymedigaethau cyfreithiol. Er enghraifft, mae'n ofynnol iddi wirio cymhwysedd ymgeisydd llwyddiannus i weithio yn y DU cyn iddo ddechrau yn ei swydd.

Mae gan y Brifysgol fuddiant cyfreithlon i brosesu data personol yn ystod y drefn recriwtio ac i gadw cofnodion am y drefn. Mae prosesu data gan ymgeiswyr am swyddi yn galluogi'r Brifysgol i reoli'r drefn recriwtio, asesu a chadarnhau addasrwydd

ymgeisydd ar gyfer cyflogaeth a phenderfynu i bwy y dylid cynnig swydd. Gall fod angen i'r Brifysgol hefyd brosesu data gan ymgeiswyr am swyddi er mwyn ymateb i, ac amddiffyn yn erbyn hawliau cyfreithiol.

Lle bydd y Brifysgol yn dibynnu ar fuddiannau cyfreithlon fel rheswm dros brosesu data, bydd wedi ystyried a yw hawliau a rhyddid gweithwyr yn drech na'r buddiannau hynny ac wedi dod i'r casgliad nad ydynt.

Mae'r Brifysgol yn prosesu gwybodaeth iechyd os bydd angen gwneud addasiadau rhesymol i'r drefn recriwtio ar gyfer ymgeiswyr ag anabledd. Gwneir hyn er mwyn cyflawni ei hymrwymedigaethau ac arfer hawliau penodol mewn perthynas â chyflogaeth.

Lle bydd y Brifysgol yn prosesu categorïau penodol eraill o ddata, fel gwybodaeth am darddiad ethnig, cyfeiriadedd rhywiol, iechyd neu grefydd neu gred, gwneir hyn ar gyfer monitro cyfleoedd cyfartal.

Ar gyfer rhai swyddi, mae'n ddyletswydd ar y Brifysgol ofyn am wybodaeth am euogfarnau troseddol a throseddau. Lle bydd y Brifysgol yn holi am y wybodaeth hon, gwneir hynny oherwydd bod yn rhaid iddi gyflawni ei hymrwymedigaethau ac arfer hawliau penodol mewn perthynas â chyflogaeth.

Bydd y data personol y mae'r Brifysgol yn ei gasglu amdanoch yn cael ei ddefnyddio ar gyfer prosesu eich cais am swydd ym Mhrifysgol Aberystwyth ac ar gyfer cwblhau ystadegau dienw. Os bydd eich cais yn llwyddiannus, bydd yn cael ei ddefnyddio fel sail ar gyfer eich cofnod gweithiwr.

Bydd y data personol y byddwch yn ei ddarparu ond yn cael ei ddatgelu i drydydd partïon os bydd angen gwneud hynny ar gyfer recriwtio. Ceir rhestr o enghreifftiau isod lle gallai eich data gael ei rannu â thrydydd partïon ar gyfer recriwtio: gofyn am eirdâu, a lle mae corff allanol yn ymwneud â'r drefn recriwtio e.e. cynghorau ymchwil ar gyfer swyddi sy'n cael eu hariannu'n allanol, aelodau paneli allanol yn unol â Chyfansoddiad Penodi Paneli'r Brifysgol.

Cesglir categorïau arbennig o ddata cydraddoldeb ar gyfer monitro effeithiolrwydd Polisi Cyfleoedd Cyfartal y Brifysgol ac i ddarparu adroddiadau ystadegol dienw. Ni fydd y data yn cael ei ddatgelu i aelodau'r panel sy'n ymwneud â'r drefn recriwtio dethol oni bai eich bod wedi datgelu anabledd a bod yn rhaid i aelodau'r panel wybod y manylion er mwyn gweithredu unrhyw addasiadau i'r drefn recriwtio a dethol all fod yn ofynnol yn rhesymol i'ch atal rhag bod dan anfantais sylweddol oherwydd eich anabledd.

**Pwy sy'n gallu gweld y data?**

Bydd eich gwybodaeth yn cael ei rhannu'n fewnol ar gyfer yr ymarfer recriwtio. Bydd hynny'n cynnwys aelodau o'r tîm AD a recriwtio, cyfwelwyr sy'n ymwneud â'r drefn recriwtio a rheolwyr yn y maes busnes â swydd wag ynddo os yw mynediad at y data yn angenrheidiol iddynt gyflawni eu rôl.

Ni fydd y Brifysgol yn rhannu eich data â thrydydd partïon, oni bai fod eich cais am gyflogaeth yn llwyddiannus a'i bod yn cynnig swydd i chi. Bydd y Brifysgol yn rhannu data personol cyfyngedig â chyn-gyflogwyr er mwyn cael geirdâu, darparwyr gwirio cefndir cyflogaeth i sicrhau'r gwiriadau cefndir angenrheidiol a'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd er mwyn sicrhau'r gwiriadau cofnodion troseddol angenrheidiol.

Ni fydd Prifysgol Aberystwyth yn trosglwyddo eich data mewn perthynas â'i swyddi gwag y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd.

**Ceisiadau am swyddi ym Mhrifysgol Aberystwyth Mawrisiws Cyf  (AUM) Cyf))**

Mae Prifysgol Aberystwyth yn hysbysebu swyddi gwag AUM Cyf ar ei system E-Recriwtio. Os dymunwch gyflwyno cais, bydd y cais hwnnw, ynghyd ag unrhyw wybodaeth ategol y byddwch yn ei darparu ac unrhyw wybodaeth a ddarperir gan drydydd partïon i gefnogi eich cais, yn cael eu derbyn gan Brifysgol Aberystwyth a'u trosglwyddo'n electronig i AUM Cyf ym Mawrisiws, ar gyfer prosesu eich cais ac ymgysylltu â'r ymarfer recriwtio.

**Sut mae'r Brifysgol yn diogelu data?**

Mae'r Brifysgol yn cymryd diogelwch eich data o ddifrif. Mae ganddi bolisïau a rheolaethau mewnol ar waith i sicrhau nad yw eich data yn cael ei golli, ei ddinistrio trwy ddamwain, ei gamddefnyddio neu ei ddatgelu, ac mai ein gweithwyr ni yn unig all gael mynediad ato ar gyfer cyflawni eu dyletswyddau yn briodol.

**Am ba hyd y mae'r Brifysgol yn cadw data?**

Os bydd eich cais am swydd yn aflwyddiannus, bydd y Brifysgol yn cadw eich data ar ffeil yn unol â Rhestr Cadw Cofnodion AD (insert link). Ar ddiwedd y cyfnod hwnnw bydd eich data yn cael ei wneud yn ddienw a'i gadw ar gyfer adroddiadau ystadegol. Fel arall, gallwch gysylltu â hr@aber.ac.uk i dynnu eich caniatâd yn ôl. Ar gyfer swyddi sy'n cael eu hariannu'n allanol ac ar gyfer swyddi gwag lle bydd angen nawdd ar ymgeisydd o'r tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd, bydd y Brifysgol yn cadw eich gwybodaeth tan i archwiliad gael ei gynnal gan naill ai'r corff cyllido neu'r Swyddfa Gartref a/neu yn unol â deddfwriaeth bresennol.

Os bydd eich cais am swydd yn llwyddiannus, bydd data personol a gasglwyd yn ystod y drefn recriwtio yn cael ei drosglwyddo i'ch ffeil staff electronig a'i gadw yn ystod eich cyflogaeth. Dylech droi at yr Hysbysiad Preifatrwydd isod ar gyfer staff am fanylion (insert link)

**Eich hawliau**

Fel gwrthrych data, mae gennych nifer o hawliau.

Cewch:

- weld a gofyn am gopi o'r data amdanoch;
- mynnu bod y Brifysgol yn newid data sy'n anghywir neu'n anghyflawn;
- mynnu bod y Brifysgol yn dileu neu'n rhoi'r gorau i brosesu eich data, er enghraifft lle nad oes bellach angen casglu'r data hwnnw;
- gwrthwynebu prosesu data amdanoch lle bydd y Brifysgol yn dibynnu ar ei buddiannau cyfreithlon fel sail gyfreithiol ar gyfer ei brosesu; a gofyn i'r Brifysgol roi'r gorau i brosesu data am gyfnod os yw'r data yn anghywir neu os oes anghydfod ynghylch a yw eich buddiannau yn drech na seiliau cyfreithiol y Brifysgol ar gyfer prosesu data ai peidio.

Os hoffech arfer eich hawliau, cysylltwch â hr@aber.ac.uk. Gallwch wneud cais gwrthrych am wybodaeth drwy lenwi ffurflen y Brifysgol ar gyfer gwneud cais gwrthrych data am wybodaeth (insert link).

Os ydych o'r farn nad yw'r Brifysgol wedi cydymffurfio â'ch hawliau diogelu data, gallwch gwyno i'r Comisiynydd Gwybodaeth.

**Beth os nad ydych yn darparu data personol?**

Nid ydych dan unrhyw rwymedigaeth statudol na chontractiol i ddarparu data i'r Brifysgol yn ystod y drefn recriwtio. Fodd bynnag, oni byddwch yn darparu'r wybodaeth, efallai na fydd y Brifysgol yn gallu prosesu eich cais yn gywir neu o gwbl.

Rheolwr data: Prifysgol Aberystwyth

Swyddog Diogelu Data: Jonathan Davies, Rheolwr Diogelu Data

Fersiwn 2 – 20 Ebrill 2018